

Pontio Cyn Ysgol

Darparu ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Gynradd ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae trosglwyddo i'r ysgol o sefydiad cyn ysgol yn sialens sylweddol i ddysgwyr sydd ag awtistiaeth. Dyma gyfres o awgrymiadau ymarferol er mwyn cynorthwyo i drosglwyddo'n esmwyth a llwyddianus i'r ysgol o'ch dewis.

1. Paratoi

- ✓ Ewch i'r ysgol cyn i'ch plentyn drosglwyddo – mwy nag unwaith os yn bosib. Mi fydd hyn o gymorth i'ch plentyn ymgylfarwyddo â chynllun yr ysgol. Gofynnwch i'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) neu'r athro/athrawes ddosbarth os oes ganddynt ffotograffau o wahanol ardaloedd yn yr ysgol. Gall hyn helpu eich plentyn i ddod i adnabod gwahanol rannau o'r ysgol. Gallwch hefyd eu defnyddio i greu llyfryn neu eu defnyddio gyda cherdyn trefn diwrnod, Nawr/Wedyn. Cofiwch ofyn am becyn ymsefydlu'r ysgol.
- ✓ Dywedwch wrth y CADY am strategaethau oedd yn gweithio i'ch plentyn yn y lleoliad cyn ysgol.
- ✓ Gwnewch yn siwr fod eich plentyn yn gyfarwydd â'r ffordd i'r ysgol. Tynnwch luniau o'r daith a gwneud llyfr 'Fy nhaith i'r ysgol' y gall eich plentyn ei ddilyn. Siaradwch gyda'ch plentyn am y lluniau sydd yn y llyfr.
- ✓ Os yw eich plentyn yn hoffi gwybod am drefn y diwrnod, gallwch ymarfer hynny gartref drwy ddefnyddio amserlen neu gerdyn Nawr/Wedyn.
- ✓ Meddyliwch am beth fydd eich plentyn yn ei wisgo yn yr ysgol; mae sgert/trowsur gyda chanol elastig ac esgidiau felcro yn haws i'w trin yn annibynnol. Rhowch gyfle i'ch plentyn ymarfer gwisgo a dadwisgo gartref fel eu bod yn barod i wneud hynny'n annibynnol mewn gwersi Addysg Gorfforol a wrth fynd i'r toiled.
- ✓ Rhowch gyfle a chymorth i'ch plentyn ganu hwiangerddi a chaneuon gyda symudiadau, adnabod eu lluniau a'u henw, eistedd a rhannu llyfr, chwarae rôl gyda'u hoff degan a gweithgareddau glendid personol e.e. golchi dwylo, eistedd ar y toiled.
- ✓ Os nad yw eich plentyn yn gallu mynd i'r toiled yn annibynnol, ystyriwch ymarfer hyn yn ystod y gwyliau cyn iddo/iddi fynd i'r ysgol. Mae www.promocon.co.uk yn wefan ddefnyddiol ar gyfer pamffledi ac adnoddau.

2. Ar y dechrau

- ✓ Enw a llun eich plentyn i'w weld yn glir ar y bag ysgol.
- ✓ Amserlen weledol, syml o drefn y diwrnod.
- ✓ Defnyddiwch y llyfr 'Fy nhaith i'r ysgol' ar bob siwrnai i'r ysgol.

- ✓ Os na fyddwch yn mynd i nôl eich plentyn o'r ysgol, gofynnwch i'r athrawes/athro dosbarth lenwi dyddiadur dyddiol yn nodi beth ddigwyddodd yn ystod y dydd, ac unrhyw newidiadau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.
- ✓ Gosodwch wisg ysgol eich plenty allan y noson gynt, gyda llun o'r ysgol i atgoffa'ch plentyn am yr ysgol y diwrnod canlynol.
- ✓ Cymerwch amser i ymarfer gweithgareddau a allai fod yn achosi problem i'ch plentyn e.e. eistedd ar y llawr ar gyfer amser cylch, eistedd wrth y bwrdd ar gyfer amser byrbryd, dewis tegau neu fwyd o ddewis o dri gan ddefnyddio gwrthrychau go iawn neu luniau, aros, sefyll mewn rhes, cymryd tro, cerdded nid rhedeg a gweithgareddau glendid personol. Bydd hyn yn helpu'ch plentyn i ddatblygu sgiliau annibynnïaeth ac yn annog eich plentyn i ofyn am gymorth.
- ✓ Pan fydd eich plentyn wedi ymgartrefu yn yr ysgol, trefnwch ymweliadau chwarae gyda chyfoedion er mwyn hybu sgiliau cymdeithasol/chwarae.

